# TÂN GWYLLT GWELL DIOGELU NA DIFARU

DILYNWCH Y COD BOB AMSER

Tynnun ôl

BIS | Department for Business Innovation & Skills

**DIOGELWCH TÂN GWYLLT**

Pecyn i Ysgolion
Cyfnod Allweddol 2

www.direct.gov.uk/fireworks

# Diogelwch Tân Gwyllt

**PECYN YSGOLION CYFNOD ALLWEDDOL 2**

Mae'r deunyddiau canlynol wedi'u bwriadu'n bennaf i addysgu neges diogelwch tân gwyllt drwy gyfrwng elfennau Llythrennedd/Dinasyddiaeth y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r deunyddiau hyn hefyd yn cynnwys cysylltiadau ar draws y cwricwlwm lle bo'n briodol.

**www.direct.gov.uk/fireworks**

Y wefan yw'r lle cyntaf y dylech chi chwilio am unrhyw wybodaeth am sut i ddefnyddio tân gwyllt mewn ffordd ddiogel a chyfrifol.

Tynnu'n ôl

**Deunyddiau Cyfnod Allweddol 2**

- Nodiadau cefndir i athrawon am hanes Cynllwyn y Powdwr Gwn
- Nodiadau cefndir i athrawon am Wyliau Tân Gwyllt ledled y byd a Thân Gwyllt a'r Gyfraith
- Testun 'November the Fifth' ynghyd â nodiadau i athrawon
- Testun 'Remember, Remember' ynghyd â nodiadau i athrawon
- Erthygl papur newydd a nodiadau i athrawon
- Yr Arddangosfa Tân Gwyllt ynghyd â nodiadau i athrawon
- Dalen o nodiadau i athrawon i gyd-fynd â'r poster ynghylch diogelwch tân gwyllt a'r daflen bwrpasol

Rydym yn awgrymu bod y gwersi'n cael eu cynnal yn ystod yr wythnos cyn 5 Tachwedd.

Tynnu'n ôl

# Nodiadau cynllunio athrawon Cyfnod Allweddol 2: Cynllwyn y Powdwr Gwn

**Remember, remember the 5th of November,**
**Gunpowder, Treason and Plot.**
**I see no reason why Gunpowder Treason**
**Should ever be forgot.**

Mae'r gerdd yn atgoffa pobl pam y caiff coelcerthi eu cynnau ledled y wlad ar 5ed Tachwedd bob blwyddyn – yn aml gyda Guy wedi'i wneud o ddefnydd yn eistedd arni.

Digwyddodd Cynllwyn y Powdwr Gwn ym 1605. Roedd ei wreiddiau yn gysylltiedig â gwleidyddiaeth y cyfnod a'r ffordd roedd credoau crefyddol yn rhannu adrannau gwahanol o'r gymuned.

Roedd ei gefndir yn gysylltiedig â'r anfodlonrwydd a deimlwyd gan y Pabyddion am y ffordd roeddent yn cael eu trin yn Lloegr. Wyth deg mlynedd yn ddiweddarach, roedd Brenin Harri'r VIII wedi datgysylltu o Rufain am fod y Pab wedi gwrthod caniatáu iddo ysgaru ei wraig gyntaf, Catherine o Aragon. Yna, pan esgynnodd y Frenhines Elisabeth I, a oedd yn Brotestant, i'r orsedd ym 1558, erlidiodd y Pabyddion, gan ofni y gallent ochri gyda goresgynnydd o gyfandir Ewrop.

Pan fu Elisabeth farw ym 1603, daeth Brenin Iago VI o'r Alban yn Iago I o Loegr. Gobeithiodd arweinwyr Pabyddol Lloegr y byddai'n fwy goddefgar. Fodd bynnag, chwalwyd y gobeithion hyn yn fuan a pharhaodd yr erlid. Derbyniodd y rhan fwyaf o Babyddion y sefyllfa, ond roedd nifer fach yn benderfynol o wneud rhywbeth am y peth a cheisio gorfodi newid.

Pum ffigur canolog Cynllwyn y Powdwr Gwn oedd Robert Catesby, Thomas Percy, Thomas Wintour, John Wright ac – yr enwocaf o'r rhain oll – Guy Fawkes, a adwaenir fel Guto Ffowc yn Gymraeg. Roedd Fawkes, a aned yng Nghaerefrog ym 1570, yn filwr tâl, neu'n filwr ffortiwn, a dreuliodd fwy na 10 mlynedd yn ymladd dros Sbaen yn Fflandrys fel rhan o gatrawd o alltudion o Loegr. Cafodd ei recriwtio am fod ganddo wybodaeth am ddefnyddio powdwr gwn.

Tyngodd y pump y byddant yn chwythu Iago a'r Senedd i fyny yn ystod agoriad swyddogol y Senedd, gan ladd y Brenin a phob un o'i ymgynghorwyr amlycaf.

I ddechrau, penderfynasant rentu tŷ yn agos at y Senedd a dechrau cloddio twnnel, ond rhoddwyd y gorau i'r cynllun hwn pan y'u rhwystrwyd gan seiliau Palas San Steffan. Yn lle hynny, llwyddodd Thomas Percy i gael seler o fewn adeiladau'r Senedd o dan Dŷ'r Arglwyddi. Penderfynwyd y byddai Fawkes - drwy ymddwyn fel gwas Percy a defnyddio'r enw John Johnson - yn gweithio fel

Tynnu'n ôl

gofalwr yno. Yma, pentyrrodd y cynllwynwyr 36 o gasgenni o bowdwr gwn. Cludwyd y casgenni ganddynt ar draws y Tafwys yn ystod y nos, a’u cuddio o dan goed tân.

O ganlyniad i’r oedi o ran agor y Senedd a’r costau uchel a dalwyd gan y cynllwynwyr, a oedd yn storio arfau mewn mannau gwahanol ledled y wlad i’w defnyddio yn y gwrthryfel yr oeddent yn bwriadu ei arwain yn dilyn marwolaeth y Brenin, ymunodd mwy o bobl â’r cynllwyn. Roedd y rhain oll yn agos at y cynllwynwyr gwreiddiol, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn perthyn.

Credir mai un o’r bobl hyn – Francis Tresham – a ysgrifennodd lythyr a anfonwyd at ei frawd yng nghyfraith, yr Arglwydd Mounteagle, ar Hydref 26ain, 1605. Roedd y llythyr yn rhybuddio’r Arglwydd Mounteagle i beidio â mynychu agoriad y Senedd. Aeth yr Arglwydd Mounteagle â’r llythyr at Ysgrifennydd Gwladol y Brenin Iago, Robert Cecil, ar unwaith.

Er iddynt fod yn ymwybodol o’r llythyr, parhaodd y cynllwynwyr â’u cynlluniau, yn sicr nad oedd yr awdurdodau yn ymwybodol o fanylion y cynllun. Treuliodd Guy Fawkes y diwrnod cyn agoriad y Senedd – a oedd i’w gynnal ar Dachwedd 5ed – yn y seler a oedd yn cynnwys y powdwr gwn. Roedd ffiws a oedd yn llosgi’n araf yn barod. Roedd Fawkes i fod i gynnau’r ffiws ac yna dianc i’r cyfandir.

Fodd bynnag, ar noson Tachwedd 4ydd, chwiliwyd drwy’r seleri o dan y Senedd. Yn ystod y chwiliad cyntaf o’r seler lle’r oedd Fawkes yn cuddio, sylwyd bod llawer iawn o goed tân yno. Tua hanner nos, dychwelodd ynad, yng nghwmni milwyr, i’r seler a threchwyd Fawkes. Canfuwyd y powdwr gwn ac arestiwyd Fawkes a’i osod gerbron y Brenin er mwyn ei holi.

Er iddo gael ei arteithio, parhaodd â’r honiad mai John Johnson, gwas Thomas Percy, ydoedd. Fodd bynnag, roedd ysbiwyr y Llywodraeth eisoes wedi canfod cysylltiad rhyngddo ef, Catesby a’r cynllwynwyr eraill.

Roedd Catesby a’r rhan fwyaf o’r cynllwynwyr eraill wedi ffoi o Lundain i Ganolbarth Lloegr. Cyraeddasant hwy, a’u cydymdeimlwyr - tua 60 i gyd - yn Holbeche House, ar ffin Swyddi Stafford a Warwick, ar Dachwedd 7fed. Y diwrnod canlynol, amgylchynwyd y tŷ gan lu o dan arweiniad Siryf Caerwrangon. Yn ystod y brwydro a ddilynodd, lladdwyd Catesby, Wright a Percy ac arestiwyd y cynllwynwyr eraill. Ar ddiwedd mis Ionawr 1606, rhoddwyd hwy ar brawf, ac fe’u cafwyd yn euog o fod yn fradychwyr, ac fe’u dienyddiwyd yn ddiseremoni. Dienyddiwyd Guy Fawkes a Thomas Wintour, ynghyd â dau gynllwyniwr arall, yn Old Palace Yard yn San Steffan.

Aed â Francis Tresham, y tybiwyd mai ef oedd awdur y llythyr a rybuddiodd yr awdurdodau am Gynllwyn y Powdwr Gwn, i Dŵr Llundain yn dilyn ei arestio. Cofnodwyd iddo farw yno ym mis Rhagfyr 1605, o bosibl o ganlyniad i wenwyno, er bod rhai haneswyr o’r farn y caniatawyd iddo ffoi.

Tynnu’n ôl

Ar Dachwedd 5ed 1606, cyneuodd y bobl yn Llundain goelcerthi i nodi pen-blwydd y diwrnod pan ataliwyd y cynllwyn i ladd y Brenin, gan ddechrau traddodiad sydd wedi goroesi hyd at heddiw.

Mae traddodiad arall hefyd wedi goroesi. Fel rhan o'r arfer o Agor y Senedd gan y Frenhines bob blwyddyn, mae Iwmyn y Gard, gan wisgo'u gwisg Tiwdor a chan gario gwaywffyn, yn cynnal chwiliad o'r adeilad.

**(Llythyr Monteagle, a gedwir bellach yn y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus:**

"My lord, out of the love I bear to some of your friends, I have a care for your preservation. Therefore I would advise you, as you tender your life, to devise some excuse to shift of your attendance of this Parliament, for God and man hath concurred to punish the wickedness of this time. And think not slightly of this advertisement but retire yourself into your country, where you may expect the event in safety, for though there be no appearance of any stir, yet I say they shall receive a terrible blow, the Parliament, and yet they shall not see who hurts them. This counsel is not to be contemned, because it may do you good and can do you no harm, for the danger is past as soon as you have burnt the letter: and I hope God will give you the grace to make good use of it, to whose holy protection I commend you.")

**Rhai cysylltiadau posibl â gwefannau:**

www.gunpowder-plot.org (gwefan cymdeithas sy'n benodol yn astudio Cynllwyn y Powdwr Gwn.)

www.bbc.co.uk/history/british/civil_war_revolution/gunpowder_haynes_01.shtml

www.parliament.uk/documents/upload/go8.pdf

Tynnu'n ôl

# Nodiadau cefndir i athrawon: gwyliau tân gwyllt ledled y byd.

Mae tân gwyllt yn cael ei ddefnyddio mewn gwyliau a dathliadau ledled y byd ers blynyddoedd lawer. Bydd yr wybodaeth gefndir ganlynol o gymorth wrth ichi gynllunio gwersi.

**Hanes tân gwyllt**

Mae'n debyg mai yn Tsieina y dechreuwyd gwneud tân gwyllt, yn y 9fed Ganrif. Byddai canghennau bambŵ'n cael eu llenwi â phowdr gwn, a'u tanio adeg y Flwyddyn Newydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael am ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd heddiw yn y daflen yma.

Y gred yw bod tân gwyllt wedi cyrraedd Ewrop am y tro cyntaf yn fuan ar ôl 1300. Teithwyr a oedd wedi bod yn y Dwyrain ddaeth â'r tân gwyllt yn ôl, gan gynnwys milwyr y Croesgadau.

Mae tân gwyllt yn cael ei ddefnyddio ledled y byd i ddathlu digwyddiadau ac yn rhan o wyliau a dathliadau. Dyma rai o'r mwyaf poblogaidd heddiw:

**Noson Tân Gwyllt (5 Tachwedd)**

Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, bydd tân gwyllt yn cael ei ddefnyddio i gofio am ymgais aflwyddiannus Guto Ffowc i ffrwydro'r Senedd.

**Diwali – gŵyl y goleuadau**

Mae Diwali yn cael ei ddathlu gan Hindŵiaid ledled y byd ers miloedd o flynyddoedd. Mae'n dechrau ar Amavasya, sef pymthegfed dydd mis Ashwin, sydd naill ai ym mis Hydref neu ym mis Tachwedd. Ystyr Diwali yw 'rhes o oleuadau' ac mae'r ŵyl yn parhau am bum niwrnod. Mae i bob dydd ei arwyddocâd ei hun, ac mae sawl myth, chwedl a chred yn gysylltiedig â nhw. Yn draddodiadol, mae rhesi o oleuadau bach yn cael eu cynnau yn y tai i roi croeso i Lacshmi, duwies Cyfoeth a Ffyniant ac i gadw drygioni draw. Bydd tân gwyllt yn cael ei gynnau fel rhan o'r dathlu.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am Diwali drwy edrych ar http://www.reachgujarat.com/diwali.htm

**Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd**

Mae'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd yn cael ei dathlu ganol mis Chwefror. Bydd y gwaith paratoi yn dechrau ym mis Ionawr wrth i bobl brynu bwyd ac anrhegion arbennig, yn union fel y Nadolig.

Tynnu'n ôl

Mae'r tai'n cael eu glanhau'n llwyr ac yn aml mae fframiau ffenestri'n cael eu peintio'n goch. Ar y noson cyn y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, bydd pobl yn cael pryd arbennig o fwyd, gan wisgo dillad coch yn aml er mwyn cadw ysbrydion drwg draw. Ganol nos mae tân gwyllt yn cael ei gynnau er mwyn dathlu a bydd bobl yn ymweld â theulu a chyfeillion i roi cyfarchion y Flwyddyn Newydd. Mae diwedd y Flwyddyn Newydd yn cael ei ddathlu drwy gyfrwng Gŵyl y Llusernau, gyda chanu, dawnsio a sioeau llusernau.

**Gwyliau Cenedlaethol**

Mae gan wledydd eraill wyliau cenedlaethol sy'n cyfateb i Noson Tân Gwyllt. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Ffrainc – Diwrnod Bastille.** Ar 14 Gorffennaf y mae hwn, i ddathlu'r cyrch ar y Bastille (carchar) yn ystod Chwyldro Ffrainc ym 1789. Bydd pobl Ffrainc yn cynnal partïon, gorymdeithiau ac arddangosfeydd tân gwyllt.

**America – Diwrnod Annibyniaeth** sy'n cael ei ddathlu ar 4 Gorffennaf gyda thân gwyllt a phartïon. Mae'n cael ei ddathlu i gofio am y Datganiad Annibyniaeth oddi wrth Brydain Fawr a wnaed gan Unol Daleithiau America yn 1776. Mae llawer o wybodaeth am hyn ar gael yn http://ushistory.org

**Diwrnod Canada – 1 Gorffennaf.** Mae Pencampwriaeth Tân Gwyllt y Byd yn cael ei chynnal yng Nghanada ar 1 Gorffennaf. Diwrnod Canada yw un o wyliau pwysicaf Canada ac mae'n anrhydeddu'r diwrnod yr unodd trefedigaethau Prydeinig New Brunswick, Nova Scotia a thalaith Canada yn un wlad o dan enw Dominiwn Canada.

**Nodiadau cefndir i athrawon: tân gwyllt a'r gyfraith**

Mae nifer o newidiadau wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf yn y gyfraith ar werthu tân gwyllt a'i ddefnyddio. Mae crynodeb o'r newidiadau hyn ar gael isod.

Cyrffyw tân gwyllt

Mae yna waharddiad ar ddefnyddio tân gwyllt rhwng 11pm a 7am (yn unol â'r Ddeddf Sŵn), ac eithrio'r nosweithiau canlynol, pan fydd y cyrffyw yn amrywio:

5 Tachwedd – tan ganol nos;

Y Noson cyn y Flwyddyn Newydd – 1am drannoeth;

Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd – 1am drannoeth;

Diwali – 1am drannoeth.

Tynnu'n ôl

Tân gwyllt a phobl ifanc o dan 18 oed

• Ni chaniateir i bobl ifanc o dan 18 oed brynu tân gwyllt na'u cael yn eu meddiant mewn lle cyhoeddus

Cyfrifoldebau manwerthwyr

• Yn yr un modd â gwerthu alcohol, mae manwerthwyr yn gyfrifol am sicrhau na fyddan nhw'n gwerthu i rai o dan 18 oed.

• Rhaid i fanwerthwyr beidio â rhannu bocsys manwerthol o dân gwyllt

• Rhaid i fanwerthwyr sy'n dymuno gwerthu tân gwyllt gydol y flwyddyn sicrhau trwydded

Rhaid peidio â chyflenwi'r mathau canlynol o dân gwyllt i'r cyhoedd

• Olwynion awyr

• Bangers, bangers fflach neu fangers dwbl

• Craceri neidio

• Troellwyr llawr sy'n neidio

• Troellwyr

• Mân-rocedi

• Tiwbiau saethu - a arferai gael eu hadnabod fel bomiau awyr

• Tiwbiau saethu - a arferai gael eu hadnabod fel pelenni-mewn-mortar

• Batri yn cynnwys bangers, bangers fflach neu fangers dwbl

• Cyfuniad (heblaw olwyn) sy'n cynnwys un neu fwy o fangers, bangers fflach neu fangers dwbl

• Pob tân gwyllt Categori 4.

Tynnu'n ôl

**Amcanion Addysgu**

**Blwyddyn 3 – tymor 1:**

Lefel testun 6: darllen yn uchel ac adrodd cerddi, gan gymharu gwahanol farn am yr un pwnc.

Lefel testun 8: mynegi eu barn am stori neu gerdd, gan nodi geiriau ac ymadroddion penodol i ategu eu safbwynt.

Lefel testun 12: casglu geiriau ac ymadroddion addas, er mwyn ysgrifennu cerddi a disgrifiadau byr; cynllunio patrymau syml â geiriau, defnyddio ymadroddion ailadroddus; ysgrifennu ymadroddion llawn dychymyg.

Lefel brawddegau 3: swyddogaeth berfau mewn brawddegau.

**Gwaith lefel testun – darllen a thrafod**

• Trafod cynllun y gerdd hon a'r odl.

• Trafod sut mae'r bardd yn disgrifio'i argraff o noson tân gwyllt drwy adeiladu'r manylion bach.

• Cymharu'r ddwy gerdd a thrafod ymatebion a hoffter.

**Gwaith lefel brawddegau – gramadeg**

• Trafod y berfau a ddefnyddir yn y gerdd hon.

• Ystyried sut y gellid ailysgrifennu'r gerdd yn yr amser gorffennol.

• Nodi'r cymariaethau yn y gerdd hon sy'n dechrau gyda mor neu fel a thrafod eu heffaith ar ddisgrifiadau'r bardd.

**Blwyddyn 4 – tymor 1:**
Lefel brawddegau 4: nodi adferfau a deall eu swyddogaeth mewn brawddegau

Lefel testun 7: cymharu a gwrthgyferbynnu cerddi ar themâu tebyg, yn enwedig eu ffurf a'u hiaith, trafod ymatebion a hoffter personol.

Lefel testun 14: ysgrifennu cerddi'n seiliedig ar brofiad personol neu ddychmygol, wedi'u cysylltu â cherddi a ddarllenwyd. Rhestru ymadroddion a geiriau byr, arbrofi drwy docio neu ehangu brawddegau; arbrofi gyda berfau pwerus sy'n llawn mynegiant.

**Gwaith lefel testun – ysgrifennu**

Tynnu'n ôl

• Cyfnewid rhai o’r berfau yn y gerdd hon am eraill sy’n cael yr un effaith.

• Casglu berfau y gellid eu defnyddio wrth ddisgrifio sut mae tân gwyllt yn tanio.

• Ysgrifennu rhai ymadroddion i ddisgrifio atgofion am noson tân gwyllt – e.e. tân gwyllt penodol, bwyd, y Guto ac ati.

• Defnyddio rhai o’r berfau a’r ymadroddion mewn cerdd am noson tân gwyllt.

**Gwaith lefel geiriau – ffoneg, sillafu a geirfa**

• Defnyddio thesawrws i ganfod cyfystyron geiriau i ychwanegu at y casgliad o ferfau ac ymadroddion ar gyfer cerdd noson tân gwyllt.

**Cysylltiadau cwricwlaidd**

• Defnyddio gwers celf i roi cyfleoedd i’r disgyblion weithio gydag amrywiaeth o gyfryngau i ddarlunio eu cerddi noson tân gwyllt.

Tynnu’n ôl

# Nodiadau cynllunio athrawon Cyfnod Allweddol 2: Remember, Remember

**Amcanion Addysgu**

**Blwyddyn 3 – tymor 1:**

Lefel testun 8: mynegi eu barn am stori neu gerdd, gan nodi geiriau neu ymadroddion penodol i ategu eu barn.

Lefel testun 12: casglu geiriau ac ymadroddion addas er mwyn ysgrifennu cerddi a disgrifiadau byr.

Lefel testun 13: creu ystod o gerddi ar ffurf siapiau.

**Gwaith lefel testun – darllen a thrafod**

• Trafod y pennill traddodiadol hwn, gan gynnwys y dewis o eiriau a'r odl.

• Cymharu'r ddwy gerdd, yn enwedig eu ffurf.

• Trafod rhythm a mesur y pennill hwn.

**Gwaith lefel brawddegau – gramadeg**

• Trafod y cywasgiad 'twas ac ystyried y ddau air y mae'n eu dwyn ynghyd. Archwilio cywasgiadau eraill.

• Trafod amser y berfau fel y mae'n berthnasol i'r pennill hwn.

**Blwyddyn 4 – tymor 1:**

Lefel testun 7: cymharu a gwrthgyferbynnu cerddi â themâu tebyg, yn enwedig eu ffurf a'u hiaith, gan drafod ymatebion a hoffter personol.

Lefel testun 14: ysgrifennu cerddi'n seiliedig ar brofiad personol neu ddychmygol, yn gysylltiedig â cherddi a ddarllenwyd.

**Gwaith lefel testun – ysgrifennu**

• Ysgrifennu cwpledi sy'n sôn am ddigwyddiadau yn hanes Cynllwyn y Powdwr Gwn.

• Eu rhoi ynghyd i lunio cerdd.

Tynnu'n ôl

**Gwaith lefel geiriau – ffoneg, sillafu a geirfa**

• Canfod geiriau deusill yn y gerdd sy'n cynnwys cytseiniaid dwbl.

• Archwilio rhai eraill.

**Cysylltiadau cwricwlaidd**

• Mewn gwers hanes archwilio cywirdeb yr hyn a adroddwyd yn y pennill hwn. Nodi'r hyn sy'n ffaith ar hyn sy'n ffuglen.

Tynnu'n ôl

# Nodiadau cynllunio athrawon Cyfnod Allweddol 2: Erthygl papur newydd

**Amcanion Addysgu**

**Blwyddyn 4 – tymor 1:**

Lefel Testun 20: nodi prif nodweddion papurau newydd gan gynnwys trefn, amrediad y wybodaeth, llais, lefel y ffurfioldeb; trefn yr erthyglau, hysbysebion a phenawdau.

Lefel geiriau 11: diffinio geirfa gyfarwydd yn eu geiriau eu hun, gan ddefnyddio ymadroddion a mynegiant amgen.

Lefel brawddegau 14: nodi adferfau a deall eu swyddogaeth mewn brawddegau.

**Lefel gwaith testun – darllen a thrafod**

• Trafod y digwyddiadau sy'n arwain at ddamwain y ferch.

• Drwy chwarae rôl, holi'r bobl ifanc a oedd yn rhan o'r ddamwain – sedd boeth.

• Trafod effeithiau tân gwyllt ar anifeiliaid.

**Gwaith lefel brawddegau – gramadeg**

• Archwilio'r ansoddeiriau a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r bobl yn yr adroddiad papur newydd hwn – y bobl ifanc.

• Defnyddio adroddiadau papurau newydd eraill i amlygu'r ffyrdd y mae papurau newydd yn disgrifio pobl.

Tynnu'n ôl

**Blwyddyn 4 – tymor 1:**
Lefel testun 24: ysgrifennu adroddiadau mewn arddull papur newydd gan gynnwys:

Cyfansoddi penawdau

Defnyddio TG i ddrafftio a gosod yr adroddiadau.

Golygu storïau i gyd-fynd â gofod penodol.

Trefnu ysgrifennu mewn paragraffau.

Lefel testun 5: paratoi, darllen a pherfformio sgriptiau drama; cymharu trefn y sgriptiau gyda'r storïau – sut nodir y lleoliadau, a yw'r prif storïau yn glir?

Lefel testun 13: ysgrifennu sgriptiau drama.

Lefel geiriau 11: diffinio geirfa gyfarwydd yn eu geiriau eu hun gan ddefnyddio ymadroddion a mynegiant amgen.

**Lefel gwaith testun – ysgrifennu**

• Ysgrifennu golygfa fer lle y mae'r bobl ifanc yn dysgu am anafiadau'r ferch ifanc.

• Ysgrifennu dyddlyfr y ferch ifanc am yr ychydig ddyddiau cyn y ddamwain.

• Ysgrifennu adroddiad papur newydd am ddamwain.

**Gwaith lefel geiriau – ffoneg, sillafu a geirfa**
• Archwilio'r pennawd a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad – trafod y defnydd o ddyfynodau.

• Archwilio geiriau eraill ar gyfer "dywedodd".

**Cysylltiadau cwricwlaidd**

• Mewn gwers ABCh, archwilio mathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc.

Tynnu'n ôl

# Nodiadau cynllunio athrawon Cyfnod Allweddol 2: Y Sioe Tân Gwyllt

Tynnu'n ôl

**Amcanion Addysgu**

**Blwyddyn 5 – tymor 1:**

Lefel testun 3: archwilio sut y cyflwynir y cymeriadau, gan gyfeirio at y testun:

– drwy ddeialog, gweithred a disgrifiad

- sut mae’r darllenydd yn ymateb iddynt

Lefel testun 4: ystyried sut y gellir gwreiddio testunau ym mhrofiad yr awdur.

Lefel brawddegau 5: deall y gwahaniaeth rhwng iaith lafar ac iaith ffurfiol.

Lefel geiriau 9: casglu a dosbarthu amrywiaeth o briod-ddulliau, ystrydebau ac ymadroddion idiomatig.

**Gwaith lefel testun – darllen a thrafod**

• Trafod cymeriadau y fam a’r mab. Beth a allwn ei ddweud amdanynt o’r dystiolaeth yn y darn hwn?

• Trafod "A dyna pryd ges i glusten." A yw’n hiwmor neu’n enghraifft o drais yn y cartref?

• Crynhoi barn y ddau am dân gwyllt ac ystyried y rhesymau dros eu safbwyntiau.

• Cymharu profiadau’r plant o sgwrs debyg rhwng oedolyn a phlentyn.

• Trafod barn y plant am y ddau gymeriad yn y darn hwn.

• Rhagweld y diwedd.

**Gwaith lefel brawddegau – gramadeg**

• Adolygu atalnodi iaith uniongyrchol a thrafod sut y cyflwynir deialog mewn testun.

• Trafod y defnydd o eiriau ansafonol neu dafodieithol – e.e. clusten, plîs, ‘bach o arian.

**Blwyddyn 6 – tymor 1:**

Lefel testun 6: trin safbwynt y naratif drwy:

– ysgrifennu mewn llais ac arddull testun.

– ysgrifennu stori gyda dau wahanol adroddwr.

**Gwaith lefel testun – ysgrifennu**

• Ailysgrifennu’r darn o stori George Layton o safbwynt y fam.

• Ysgrifennu sgwrs rhwng oedolyn a phlentyn sy’n dangos bod ganddynt farn wahanol am bwnc.

**Gwaith lefel geiriau – ffoneg, sillafu a geirfa**

• Tasgu syniadau am briod-ddulliau, ystrydebau ac ymadroddion idiomatig.

• Trafod eu hystyron.

• Defnyddio rhai o’r rheini a gasglwyd mewn deialog rhwng dau berson.

**Cysylltiadau cwricwlaidd**
• Mewn gwers ABCh (Dinasyddiaeth) trafod rhai o’r materion sy’n deillio o’r darn hwn – e.e. cynilo a gwario; tân gwyllt a diogelwch; barn rhieni a barn plant.

Tynnu'n ôl

# Nodiadau cynllunio athrawon Cyfnod Allweddol 2: Poster Diogelwch Tân Gwyllt

**Amcanion Addysgu**

**Blwyddyn 5 – tymor 1:**

Lefel testun 22: darllen a gwerthuso amrywiaeth o destunau cyfarwyddiadol o ran eu:

– diben

– trefn a chynllun

– eglurder a defnyddioldeb

Lefel testun 25: ysgrifennu testunau cyfarwyddiadol a'u rhoi ar brawf.

Lefel brawddegau 8: adolygu ac ymestyn y gwaith ar ferfau.

**Gwaith lefel testun – darllen a thrafod**

• Trafod iaith y poster – gwneud sylwadau yn arbennig ar ba mor addas ydyw at ddiben yr iaith.

• Cymharu'r poster diogelwch hwn â rhai eraill a chrybwyll nodweddion cyffredin. Sut mae posteri gwahanol yn defnyddio ffotograffau a lluniau eraill, cartwnau, pwyntiau bwled, tôn, arddull ac ati.

• Trafod effeithiolrwydd y poster hwn gyda'r plant.

**Gwaith lefel brawddegau – gramadeg**

• Adolygu berfau gweithredol a goddefol.

• Trafod y defnydd o ferfau gweithredol ar bosteri, yn arbennig posteri diogelwch.

• Ystyried sut y defnyddir berfau gweithredol mewn amrywiaeth o bosteri hysbysebu.

**Blwyddyn 6 – tymor 1:**

Lefel testun 12: gwneud sylwadau beirniadol ar iaith, arddull a llwyddiant enghreifftiau o lenyddiaeth nad yw'n ffuglen, fel taflenni.

Tynnu'n ôl

**Gwaith lefel testun – ysgrifennu**

• Trafod cyfarwyddiadau ysgrifenedig er mwyn sicrhau diogelwch.

• Ysgrifennu cyfarwyddiadau ar gyfer: e.e. cynnau barbeciw, newid plwg trydanol, gan dalu sylw arbennig i ddiogelwch.

**Gwaith lefel geiriau – ffoneg, sillafu a geirfa**

• Trafod sillafu geiriau ar bosteri – ystyried enghreifftiau o ble y mae sillafu geiriau wedi newid ar gyfer effaith benodol.

• Ystyried y ffyrdd y defnyddir geiriau sydd â mwy nag un ystyr ar bosteri.

**Cysylltiadau cwricwlaidd**

• Mewn gwers ABCh, trafod diogelwch yn y cartref.

• Mewn gwers gelf, dylunio poster mawr, gan dalu sylw arbennig i arddull a thôn yr iaith.

Tynnu'n ôl

B

# Dilynwch Ben i gael noson tân gwyllt ddiogel

**Mae Ben wrth ei fodd ar noson tân gwyllt.** I sicrhau ei fod yn ddiogel bob blwyddyn, mae'n dilyn y **Cod Tân Gwyllt.**

**Bydd tân gwyllt yn dychryn eich anifeiliaid anwes, felly cadwch nhw'n ddiogel yn y tŷ.**

**Peidiwch byth â rhoi ffyn gwreichion i blant o dan bump oed.**

**Dim ond oedolion ddylai drafod tân gwyllt a'u cynnau.**

**Peidiwch byth â mynd yn agos at dân gwyllt sydd wedi'i gynnau. Hyd yn oed os nad yw wedi tanio, fe allai ffrwydro o hyd.**

**Rhaid i chi fod yn 18 oed cyn cael prynu tân gwyllt yn y siopau.**

## Peidiwch byth â chwarae â thân gwyllt.

**Mae tân gwyllt yn beryglus ac mae'n gallu eich brifo.**

**Pan fydd ffon wreichion yn diffodd, PEIDIWCH Â CHYFFWRDD YNDDI. Fe allai eich llosgi o hyd, felly rhowch y pen poeth mewn bwcedaid o ddŵr.**

**Dim ond oedolion ddylai gynnau tân gwyllt a gafael ynddo.**

**Os byddwch yn cael ffon wreichion, gwisgwch fenig bob tro. Daliwch ffyn gwreichion hyd eich braich bob tro a pheidiwch â gafael mewn mwy nag un ar y tro.**

Department for Business, Innovation & Skills www.bis.gov.uk First published September 2004. Crown Copyright. 08/09 URN 09/1111

www.direct.gov.uk/fireworks

Tynnu'n ôl

# Tachwedd y Pumed

(Addasiad Menna Cravos o ‘November the Fifth’ gan Leonard Clark)

**Ti roced fawr,**
Fe’th wyliaf ar dy daith
Yn hedfan mor chwim â saeth
I’r awyr ddu,
A’th gynffon di
Yn fflam o dân.

**Ti olwyn Gatrin,**
Mae ’nghalon yn cyffroi
Wrth dy weld yn troi
Yn gynt ac yn gynt
Mor gyflym â’r gwynt,
Yn gylch o dân.

**Ti gannwyll Rufeinig,**
Gwyliaf dy wreichion
Yn nüwch y noson
Yn disgyn fel glaw,
Tasgu yma a thraw
Yn sêr o dân.

**Ti Guto druan,**
Fe’th welaf di’n llosgi
Ac yn araf ddiflannu.
Mae’r fflamau yn difa
Dy gorffyn bach llipa
Yn lludw mân.

**Ac felly,**
Daeth diwedd ar yr hwyl a’r dathlu,
Mae’r goelcerth fawr yn awr yn mygu.
Rhaid i ni aros blwyddyn eto
Cyn daw hi’n adeg llosgi Guto.

Tynnu’n ôl

# Remember, remember...

Remember, remember
The fifth of November,
The gunpowder treason and plot.
I see no reason why gunpowder treason
Should ever be forgot.

Guy Fawkes Guy, ‘twas his intent
To blow up King and Parliament.
Three score barrels were laid below
To prove old England’s overthrow.

By God’s mercy he was catched
With a dark lantern and lighted match.
Holler boys Holler boys let the bells ring
Holler boys Holler boys God save the King
Traditional

Tynnu'n ôl

# Addasiad o ddarn: (The Firework Display gan George Layton) Y Sioe Tân Gwyllt

‘Mam, arian poced yw beth maen nhw’n ei alw fe, ontefe? Mae hwnna’n golygu arian allwch chi ei roi yn eich poced a’i wario. Os o’ch chi fod i’ roi e mewn cadw-mi-gei, bydden nhw wedi’i alw fe’n arian cadw. Ti’n treio dod mas ohoni – ‘na’r gwir, ontefe?’

Ro’n i wedi cael llond bol. Y gwir oedd bod mam yn treio dod mas o adael i mi gael tân gwyllt. Daeth hi draw ata i.

‘Paid â bod mor hy, grwt. ‘Styria ‘da pwy rwyt ti’n siarad, wnei di.’

Am eiliad, ro’n i’n meddwl ei bod hi’n mynd i roi clusten i mi.

‘Wel, hyd yn oed ‘sŵn i wedi cadw ‘bach o arian, fyddet ti ddim yn gadael i mi brynu tân gwyllt, na fyddet ti?’

Ddywedodd hi ddim byd.

‘Wel, faset ti, y?’

Dywedodd hi wrthyf am beidio â dweud ‘y’ oherwydd ei fod e’n anghwrtais. Dw I ddim yn meddwl ei fod e’n anghwrtais. Dim ond gair yw e, wedi’r cwbl.

‘Wel, faset ti, Mam? Tase arian ‘da fi fy hunan, faset ti’n gadael i fi brynu tân gwyllt ‘da fe?’

‘O, gad dy swnian, da ti. Dwyt ti ddim yn cael tân gwyllt a dyna ddiwedd arni.’

Ond nid dyna’i diwedd hi, o bell ffordd. Ro’n i mo’yn tân gwyllt eleni ac ro’n i’n mynd i gael tân gwyllt eleni. Wedi’r cwbl, roedd plant dipyn iau na fi yn cael tân gwyllt. Wedyn pam na ddyliwn i?

‘Ar wahân i fod yn wastraff arian, maen nhw’n beryglus.’

Peryglus. Wir-yr, mae fy mam i mor hen-ffasiwn.

‘Mam, mae cyfarwyddiadau ar bob tân gwyllt. Dim ond i chi gynnau’r papur tanio glas a symud o’r ffordd, dydyn nhw ddim yn beryglus.’

Dechreuodd hi rygnu ymlaen am faint o bobl oedd yn cael eu cludo i’r ysbyty bob

Tynnu’n ôl

Noson Tân Gwyllt, a faint o blant oedd yn cael eu hanafu, a faint o goesau a breichiau oedd yn cael eu colli, a dweud pe bai'r holl dân gwyllt yn cael eu goruchwylio fel roedden nhw yn Ysbyty'r Plant, yna byddai cryn dipyn llai o ddamweiniau. Doedd dim taw arni. Ro'n i wedi clywed y cyfan o'r blaen.

'Ond mi fydda i'n ofalus, Mam, rwy'n addo. Plîs, gad i mi gael fy nhân gwyllt fy hunan.' A dyna pryd ges i glusten.

"The Firework Display" o The Fib and Other Stories gan George Layton a gyhoeddwyd gan Macmillan © George Layton (sydd hefyd yn awdur The Swap and Other Stories a gyhoeddwyd gan Macmillan) wedili ddefnyddio gyda chaniatâd Pearson Education Limited.

Tynnu'n ôl

# Gallai merch a anafwyd gan dân gwyllt fod ‘wedi ei chreithio am oes’

## Heddiw, mae merch ifanc yn wynebu llawdriniaeth mewn ysbyty yn dilyn anafiadau a achoswyd gan dân gwyllt.

Dioddefodd y ferch 10 oed losgiadau difrifol i’w hwyneb, dwylo a breichiau pan afaelodd mewn roced a ffrwydrodd yn ei dwylo.

Bu’n gwylio criw o bobl ifanc yn tanio tân gwyllt mewn man chwarae yn Barton Street, Devonholme. Dywed pobl sy’n byw gerllaw bod un o’r bobl ifanc wedi rhoi’r roced mewn potel. Roedd y ffiws wedi ei thanio ond roedd y botel wedi troi ar ei hochr. Roedd y ferch wedi bod yn chwarae ar siglenni cyfagos a rhedodd draw i’w chodi pan ffrwydrodd y tân gwyllt. Cafodd y ferch ei chludo mewn ambiwlans i uned ddamweiniau Ysbyty Devonholme a dywedwyd neithiwr bod ei chyflwr yn ‘wael’. Dywedodd yr Arolygydd Peter Smith o Heddlu Devonholme: “Roedd wedi cael ei llosgi’n ddrwg iawn ac efallai y bydd wedi ei chreithio am oes. Mae hi’n unigolyn diniwed sy’n dioddef oherwydd gweithredoedd di-hid pobl eraill.

“Gall tân gwyllt roi llawer o fwynhad yn eu lle priodol, sef mewn arddangosiadau sydd wedi eu trefnu’n gywir neu mewn partïon preifat sydd wedi eu harolygu’n gywir. Mae hyn yn dangos y canlyniadau trychinebus

Tynnu’n ôl

sy’n deillio o gamddefnyddio tân gwyllt.”
Dywedodd eu bod wedi siarad â nifer o bobl ifanc yn dilyn y digwyddiad a’u bod yn cynnal ymholiadau i sut yr oeddent wedi cael gafael ar y tân gwyllt.
Cadarnhaodd yr Arolygydd Smith fod yr heddlu wedi cael eu galw i ddigwyddiad yn yr un ardal ddwy noson ynghynt.
Roedd hynny yn dilyn cwynion gan bobl ag anifeiliaid anwes a oedd wedi cael eu dychryn gan sŵn tân gwyllt yn cael eu tanio.
Fodd bynnag, roedd y bobl ifanc hynny wedi rhedeg i ffwrdd cyn iddynt allu siarad â hwy.

Tynnu'n ôl

Tynnu'n ôl

Department for Business, Innovation & Skills
www.bis.gov.uk
Published July 2010 © Crown Copyright
URN 10/1041W